OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 413

# Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016

*Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p. 43)*

**204.** Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 204 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 2(1)**

**205.** Yn adran 114 (cwynion am wasanaethau cymdeithasol)—

(a) yn is-adran (2) yn lle "under subsection (1)" rhodder "under this section";

(b) hepgorer is-adrannau (3) a (4);

(c) yn is-adran (5)—

(i) ym mharagraff (a) hepgorer "in the case of regulations under subsection (1),";

(ii) hepgorer paragraff (b)(**1**);

(d) yn y penawd ar y diwedd mewnosoder ": England".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 205 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 2(1)**

**206.** Yn adran 115 (rheoliadau cwynion: atodol) yn is-adran (1) hepgorer "or (3)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 206 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 2(1)**

**207.** Hepgorer adran 116(2) a (3) (mewnosod adran 26ZB yn Neddf Plant 1989).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Rhl. 207 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 2(1)**

**208.** Yn adran 148 (dehongli Rhan 2)—

(a) yn y diffiniad o "local authority"—

(**1**) Amnewidiwyd adran 114(5)(b) gan baragraffau 74 ac 76(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (p. 10).

(i) ar ôl "authority"" mewnosoder

"—

(a) in relation to England,";

(ii) ar y diwedd mewnosoder—

"(b) in relation to Wales, has the same meaning as in the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014";

(b) yn lle'r diffiniad o "social services functions"(**2**) rhodder y canlynol—

""social services functions" in relation to —

(a) a local authority in England, has the same meaning as in the Local Authority Social Services Act 1970 but does not include—

(i) functions within section 135(1)(d) or (e) of the Education and Inspections Act 2006, or

(ii) functions prescribed by regulations under section 135(1)(f) of that Act;

(b) a local authority in Wales, has the same meaning as in section 143 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014;".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Rhl. 208 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 2(1)**

**209.** Yn Atodlen 4, hepgorer paragraff 77 (diwygio adran 24C o Ddeddf Plant 1989).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Rhl. 209 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 2(1)**

(**2**) Diwygiwyd y diffiniad o "social devices functions" gan baragraffau 82 a 93(1) a (3) o Atodlen 14 i Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p. 40).

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016, Croes Bennawd: Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p. 43).